Adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig
Mehefin 2023

MAKING WALES BETTER
GWNEUD CYMRU WELL

# **Adeiladu Pontydd:** Democratiaeth Cymru – nawr, ac ar gyfer ein dyfodol



## Ynglŷn â'r awdur

Mae **Dylan Moore** yn Arweinydd Democratiaeth a Pholisi yn y Sefydliad Materion Cymreig ac yn Olygydd y cylchgrawn *the welsh agenda*. Nod ei waith yw cyfrannu at genhadaeth y Sefydliad Materion Cymreig, sef Cymru â democratiaeth hyderus a chryf.

dylan@iwa.org.uk

## Ynglŷn â'r Sefydliad Materion Cymreig

Melin drafod ac elusen ydym ni. Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth a phleidiau gwleidyddol.

Trwy ddwyn ynghyd arbenigwyr o bob cefndir, rydym yn esgor ar syniadau uchelgeisiol a chytbwys sy'n sicrhau ymrwymiadau gwleidyddol ar gyfer gwella ein democratiaeth, ein gwasanaethau cyhoeddus a'n heconomi.

Cynigiwn blatfformau ar gyfer trafod, cyfleoedd i bobl ddweud eu dweud ac ymchwil sy'n pennu agendâu. Cawn ein hariannu gan ein haelodau a hefyd gan incwm ein digwyddiadau a'n sesiynau hyfforddi, a chawn gefnogaeth gan ymddiriedolaethau, sefydliadau a chyrff cyllido eraill. Rydym yn falch o fod wedi llofnodi addewid Dim Hiliaeth Cymru, rydym yn gyflogwr Cyflog Byw ac rydym yn meddu ar Lefel Un Nod Elusennau Dibynadwy y Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (NCVO).

Ein gweledigaeth yw creu Cymru lle gall pawb ffynnu.

I gael rhagor o wybodaeth am y Sefydliad Materion Cymreig, ein gwaith polisi, a sut i ymuno â ni, naill ai fel unigolyn neu fel cefnogwr sefydliadol, cysylltwch â'r canlynol:

Y Sefydliad Materion Cymreig (IWA), Ystafell 6.01,
sbarc / spark, Heol Maendy, Caerdydd CF24 4HQ
rhif ffôn: 029 2048 4387
cyfeiriad e-bost: info@iwa.org.uk
www.iwa.wales

Mae'r Sefydliad Materion Cymreig yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr: 1078435 ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr: 02151006

Caiff gwaith y Sefydliad Materion Cymreig o ran y cyfryngau a democratiaeth ei gefnogi gan Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree.

Noddwyd trafodaeth bord gron y Sefydliad Materion Cymreig ynglŷn â democratiaeth gan y Brifysgol Agored yng Nghymru.

# Cefndir

Seilir y papur hwn ar drafodaeth bord gron a gynhaliwyd gan y Sefydliad Materion Cymreig (IWA) ar 12 Mehefin 2023, sef trafodaeth a oedd yn dwyn y teitl 'Democratiaeth Cymru: Nawr ac yn y Dyfodol'.

Roedd y digwyddiad yn rhan o brosiect dwy flynedd gan y Sefydliad Materion Cymreig. Canolbwynt y prosiect hwn oedd cryfhau democratiaeth Cymru a'r cyfryngau yng Nghymru ac fe'i hariannwyd gan Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree. Dyma'r ail brosiect i'r Sefydliad Materion Cymreig ei gynnal ar y cyd â'r Brifysgol Agored yng Nghymru. Y prosiect cyntaf oedd panel dinasyddion a arweiniodd at gyhoeddi adroddiad yn dwyn y teitl *Lleisiau Dinasyddion, Newyddion Pobl: Gwneud i'r Cyfryngau Weithio i Gymru*, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2022.

Llwyddodd y prosiect hwnnw i ddwyn ynghyd 15 o ddinasyddion o Gymru i drafod y berthynas rhwng patrymau newidiol o ran defnydd o newyddion ar y naill law a chyflwr gwybodaeth gyffredinol dinasyddion a'r modd mae dinasyddion yn ymgysylltu â gwleidyddiaeth a'n sefydliadau democrataidd ar lefel leol, ar lefel Cymru ac ar lefel y DU ar y llaw arall. Arweiniodd yr adroddiad at lu o drafodaethau gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid ynglŷn â chyflwr democratiaeth Cymru heddiw, ac arweiniodd hefyd at ymwybyddiaeth o'r gwaith effeithiol a wneir i gryfhau ymgysylltiad dinasyddion a democrateiddio prosesau etholiadol – gwaith na châi, serch hynny, ei gydgysylltu'n effeithiol i sicrhau effaith bellgyrhaeddol.

Yn y drafodaeth bord gron hon, aethpwyd ati i ddwyn ynghyd randdeiliaid o bob rhan o'r llywodraeth, y gwasanaeth sifil, y byd academaidd, y trydydd sector ac addysg uwchradd a thrydyddol, yn ogystal â chyrff statudol ac anstatudol sy'n gweithio yn y maes democratiaeth. Y nod cyffredinol oedd sicrhau dull cydgysylltiedig o gryfhau gwaith parhaus o'r fath yng Nghymru.

Cadeiriwyd y drafodaeth bord gron gan Auriol Miller, cyfarwyddwr y Sefydliad Materion Cymreig. Cynhaliwyd dwy drafodaeth dwyawr o hyd a sbardunwyd gan nifer fechan o syniadau ysgogol gan y gwahoddedigion, sef: Mick Antoniw AS (Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Llywodraeth Cymru); Jessica Blair (Cyfarwyddwr, Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru); Dr Anwen Elias (Darllenydd mewn Gwleidyddiaeth, Prifysgol Aberystwyth); Jacob Ellis (Gwneuthurwr Newid Arweiniol: Materion Cyhoeddus a Rhyngwladol, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru); Eva Franklin (Cynhyrchydd Cynorthwyol, The Democracy Box); Yvonne Murphy (Cyfarwyddwr Artistig a Chynhyrchydd Gweithredol, Omidaze Productions); Josh Whyte (Cynhyrchydd Cynorthwyol, Omidaze Productions a The Democracy Box); Dr Jennifer Wolowic (Prif Arweinydd, Y Ganolfan Ddeialog, Prifysgol Aberystwyth).

Canolbwyntiodd y drafodaeth gyntaf ar Ddemocratiaeth Nawr a chanolbwyntiodd yr ail drafodaeth ar Ddemocratiaeth yn y Dyfodol. Yna, cafwyd cyfarfod llawn lle canolbwyntiwyd ar bennu'r camau nesaf.

# Y rhai a gymerodd ran yn y trafodaethau bord gron

| | |
|---|---|
| Mick Antoniw AS | Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad |
| Jessica Blair | Cyfarwyddwr, *Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru* |
| Rachel Cable | Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus, *ColegauCymru / CollegesWales* |
| Kevin Davies | Pennaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd, *Senedd Cymru* |
| Yr Athro James Downe | Cyfarwyddwr Ymchwil, *Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru* |
| Ella Downing | Uwch-gynghorydd Cyfathrebu (Cymru), *Y Comisiwn Etholiadol* |
| Dr Anwen Elias | Darllenydd mewn Gwleidyddiaeth, Prifysgol Aberystwyth a Chomisiynydd, *Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru* |
| Jacob Ellis | Gwneuthurwr Newid Arweiniol: Materion Cyhoeddus a Rhyngwladol, *Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru* |
| Eva Franklin | Cynhyrchydd Cynorthwyol, *The Democracy Box* |
| Nicky Hagendyk | Arweinydd Ardal – Y Dyniaethau, *Consortiwm Canolbarth y De* |
| Michael Kay | Dirprwy Gyfarwyddwr Etholiadau, *Llywodraeth Cymru* |
| Michelle Matheron | Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Materion Allanol, *Y Brifysgol Agored yng Nghymru* |
| Auriol Miller (Cadeirydd) | Cyfarwyddwr, *Y Sefydliad Materion Cymreig* |

| | |
|---|---|
| Yvonne Murphy | Cyfarwyddwr Artistig a Chynhyrchydd Gweithredol, *Omidaze Productions* |
| Joe Rossiter | Rheolwr Polisi a Materion Allanol, *Y Sefydliad Materion Cymreig* |
| Dr Nia Thomas | Swyddog Ymchwil ac Ymgyrchoedd, *Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru* |
| Dr Matthew Wall | Athro Cyswllt, Gwleidyddiaeth, Athroniaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol, *Prifysgol Abertawe* |
| Harry Warne | Myfyriwr PhD, *Prifysgol Aberystwyth* |
| Joshua Whyte | Cynhyrchydd Cynorthwyol, *Omidaze Productions a The Democracy Box* |
| Gareth Williams | Cadeirydd, *Panel Arbenigol y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru* |
| Dr Jennifer Wolowic | Prif Arweinydd, Y Ganolfan Ddeialog, *Prifysgol Aberystwyth* |

# Crynodeb Gweithredol

Mae democratiaeth yn wynebu argyfwng byd-eang a allai effeithio ar Gymru mewn sawl ffordd, a hefyd ceir dimensiynau sy'n ymwneud yn benodol â Chymru o ran y modd mae'r cyhoedd yn deall y trefniant datganoli. O gofio natur fyd-eang llawer o'r materion a pha mor bwysig yw strwythurau'r DU i ddemocratiaeth yng Nghymru, gwaith peryglus yw canolbwyntio'n rhy fanwl ar ddemocratiaeth mewn cyd-destun Cymreig. Er mwyn cryfhau democratiaeth Cymru, mae angen inni ddatblygu gweledigaeth strategol a chyfres o fetrigau a aiff y tu hwnt i ystadegau ynglŷn â'r ganran o bobl sy'n pleidleisio, fel y gellir mesur a llunio ymyriadau a all arwain at newid ymddygiad ac agwedd. Ond mae angen inni fod yn ofalus o'r bwlch sy'n bodoli rhwng y sefyllfa sydd ohoni a'r delfryd ymddangosiadol. Gall pesimistiaeth lesteirio cynnydd, ac felly ni ddylem ddisgwyl y bydd modd creu democratiaeth 'berffaith'.

Croesawyd yn eang gynigion ar gyfer cryfhau democratiaeth gynrychiadol yng Nghymru trwy ddiwygio'r system etholiadol, ond hefyd mynegwyd barn gref a oedd yn annog pob rhanddeiliad i feddwl y tu hwnt i'r cylch etholiadol. Y gred oedd y byddai canolbwyntio'n ddwys ac yn gyfan gwbl ar etholiadau oddi mewn i ddiwylliant gwleidyddol, oddi mewn i'r cyfryngau ac oddi mewn i addysg ddemocrataidd yn arwain at effaith negyddol.

Mae'r ffaith nad oes gwybodaeth ar gael yn rhwydd ac yn hygyrch ar gyfer y cynulleidfaoedd arfaethedig yn un rhwystr allweddol sy'n atal ymgysylltu democrataidd. Mae rhai adnoddau priodol yn bodoli, ond nid ydynt bob amser yn hawdd eu canfod. Yn aml, gall iaith a jargon beri i bobl beidio ag ymhél â gwleidyddiaeth. Hefyd, mae angen inni ddeall y rhwystrau sy'n effeithio ar awydd pobl i ymgysylltu – pethau sydd, yn aml, wedi'u gwreiddio mewn diffyg ymddiriedaeth mewn gwleidyddion ac yn y cyfryngau.

Er y cydnabyddir yn eang nad oes unrhyw 'fwled arian' i'w gael, cytunwyd bod gwell addysg ddemocrataidd mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol yn hanfodol o ran datrys nifer o'r problemau sy'n wynebu democratiaeth. Mae'n bwysig inni gyd-greu adnoddau gyda chymunedau a dargedir, gan eu teilwra ar gyfer cynulleidfaoedd penodol a sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno gan weithwyr proffesiynol â hyfforddiant priodol. Hefyd, mae hi'n hanfodol inni gyflwyno addysg ddemocrataidd mewn ffurfiau cyfranogol lle gall pobl weld a theimlo effeithiau gwirioneddol eu hymgysylltu.

Er mai canran fechan o'r boblogaeth sy'n pleidleisio, ac er gwaethaf diffyg ymgysylltu â phrosesau a gweithgareddau democrataidd eraill, mae'r rhan fwyaf o bobl Cymru yn poeni'n fawr am eu cymunedau lleol, ac yn aml cymerant ran mewn gwaith ymgyrchu neu weithgareddau gwirfoddol eraill. Wrth sôn am 'ddemocratiaeth', o dro i dro fe esgeulusir elfennau megis cymryd rhan mewn grwpiau cymdogaeth lleol neu ymgyrchoedd lleol, mynychu gwrthdystiadau a llofnodi deisebau, a chaiff egni a gweithgareddau ymgyrchu cymunedol eu colli pan eir ati i'w sianelu trwy gyfrwng systemau 'swyddogol' trafferthus, toredig, hen ffasiwn neu fiwrocrataidd.

Mae yna gyfle pwysig i Gymru 'fynd i'r afael â democratiaeth mewn ffordd wahanol' – o ran y cyfleoedd a gynigir trwy ddiwygio'r Senedd a thrwy gyflwyno diwygiadau etholiadol, a hefyd trwy gyfrwng amrywiaeth o arferion arloesol a gaiff eu treialu yma yng Nghymru a thrwy'r byd. Er mwyn gallu llunio camau nesaf manwl ar gyfer cryfhau democratiaeth Cymru, cytunwyd bod angen i'r sefydliadau partner o amgylch y ford gron ymgysylltu ymhellach gyda'i gilydd a chyda rhanddeiliaid perthnasol eraill fel y gellir sicrhau ffocws strategol ar gyfer y capasiti a'r arbenigedd perthnasol ac osgoi dyblygu gwaith. Rhaid rhoi pwyslais ar greu 'partneriaethau anarferol' rhwng sefydliadau, mudiadau llawr gwlad a 'hyrwyddwyr cymunedol' – er mwyn sicrhau y gall Cymru wneud pethau'n wahanol. Mwy o'r un peth nid yw'n dda.

# Democratiaeth Nawr ac yn y Dyfodol

Er mai democratiaeth yng Nghymru oedd canolbwynt y drafodaeth bord gron, cydnabuwyd yn eang bod ein 'hanniddigrwydd democrataidd' yn fater byd-eang a'i fod yn effeithio ar y Deyrnas Unedig i gyd, a bod yna ddimensiwn Cymreig i'w gael hefyd (yn enwedig o ran diffyg dealltwriaeth barhaus y cyhoedd o'r cyd-destun datganoledig). Dywedwyd bod democratiaeth 'ar y dibyn' a bod yr arfer o gyfranogi yn dioddef o 'feirws dinesig' na all unrhyw 'fwled arian' gael gwared ag ef; ond nodwyd hefyd fod tuedd optimistiaeth yn golygu bod y sefyllfa, o bosibl, hyd yn oed 'yn waeth nag y tybiwn' a bod Cymru 'yn dda am ddiagnosio, ond ddim cystal am iacháu'.

### Y ganran o bobl sy'n pleidleisio a democratiaeth gynrychiadol

Yn aml, man cychwyn trafodaethau ynglŷn ag iechyd democratiaeth yw'r ganran o bobl sy'n pleidleisio mewn etholiadau, a thrafodwyd y bwlch rhwng y canrannau hyn yn etholiadau cyffredinol y DU ac etholiadau'r Senedd. Priodolwyd y canrannau pleidleisio isel i ddiffyg ymwybyddiaeth o strwythurau datganoledig; systemau etholiadol sy'n gwneud i bobl deimlo 'nad oes unrhyw bwynt mewn pleidleisio'; tra-arglwyddiaeth y Blaid Lafur yng Nghymru; tactegau ymgyrchu a ddefnyddir gan bleidiau gwleidyddol (sef targedu seddi ymylol a siarad â phobl sy'n fwy tebygol o bleidleisio iddynt); a diffyg grym ac adnoddau datganoledig ar lefel awdurdodau lleol a chynghorau tref/cymuned.

Fodd bynnag, nodwyd hefyd nad yw canrannau pleidleisio yn 'ffordd soffistigedig o fesur' iechyd cyffredinol democratiaeth, yn enwedig os ydym yn symud oddi wrth naratif niweidiol sy'n honni mai'r blwch pleidleisio yw calon a chraidd democratiaeth. Er mwyn inni allu cryfhau diwylliant democrataidd Cymru, mae angen inni bennu metrigau sy'n monitro amryw byd o ymddygiadau ac agweddau yn ogystal â ffigurau syml fel canrannau pleidleisio.

Wrth geisio dychmygu pa fath o ddemocratiaeth y gallem ei chael yng Nghymru yn y dyfodol, dylem gytuno na allwn gyflawni perffeithrwydd. Yn hytrach, dylem geisio dysgu ar sail rhai nodweddion sy'n perthyn i ddemocratiaethau 'gorau'r byd', er enghraifft Seland Newydd a'r gwledydd Nordig. Dywedwyd bod Norwy yn enghraifft arbennig o dda. Mae gan y wlad honno ganran bleidleisio o 77.2% - sef ffigur y llwyddwyd i'w gyrraedd trwy gyfrwng mentrau arloesol fel cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig, cynrychiolaeth gyfrannol amlaelod, ac 19 o 'seddi addasu' gyda'r nod o atal y pleidiau mwyaf rhag tra-arglwyddiaethu ar y senedd. Mae yna gydberthynas gref rhwng canrannau pleidleisio a lefelau ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth, ac mae'r lefelau ymddiriedaeth yn Norwy yn 77% (o gymharu â chyfartaledd OECD o 47%).

Cafodd optimistiaeth ynglŷn â gwelliannau posibl yn iechyd democrataidd Cymru ei hennyn gan barodrwydd ymddangosiadol Llywodraeth Cymru i wrando; y diwygiadau mawr sydd ar ddod i ran y Senedd ac i ran y system etholiadol yng Nghymru; y rhaglen ymgysylltu a gynhelir gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru; a hefyd enghreifftiau penodol o arloesi democrataidd, megis The Democracy Box. Er bod hyn oll wedi'i gymedroli gan y realiti 'trist' presennol a gydnabyddir yn eang, fel y nodir uchod, yn ogystal â'r ffaith fod yna 'lawer mwy i'w wneud', nodwyd mai dim ond ers 2017 y datganolwyd etholiadau ac o'r herwydd bod gan Gymru gyfle i 'fynd i'r afael â democratiaeth mewn ffordd wahanol'.

## Dylanwad a democratiaeth gyfranogol

Cytunwyd bod rhai o'r dangosyddion cenedlaethol a gynhwysir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ddefnyddiol o ran ehangu'r metrigau y gallwn eu defnyddio i asesu 'iechyd' cyffredinol democratiaeth yng Nghymru. Gellir ategu Dangosydd 23 (y ganran o bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol) gyda Dangosydd 26 (y ganran o bobl sy'n fodlon gyda'u hardal leol fel lle i fyw ynddo) a Dangosydd 28 (y ganran o bobl sy'n gwirfoddoli), a chynigiwyd y gallai cwestiynau ychwanegol ar gyfer sefydlu cydberthynas gynnwys cwestiynau'n ymwneud ag ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth, megis 'A ydw i'n teimlo fy mod yn perthyn i'm cymdogaeth?' Mae pobl sy'n ymateb i gwestiynau o'r fath mewn gwledydd eraill yn datgelu gwahaniaethau rhwng y cenedlaethau, gyda phobl hŷn yn dangos bod eu hymdeimlad o berthyn i gymuned yn fwy seiliedig ar le tra bod ymdeimlad o berthyn y ddemograffeg iau yn fwy seiliedig ar ddiddordebau. Mae angen amrywiaeth ehangach o fetrigau ar gyfer ymdrin â phobl (yn enwedig pobl ifanc) sy'n ymhél i raddau helaeth â democratiaeth ar-lein er nad oes ganddynt fawr ddim cysylltiad â'u cymuned leol.

Yn ôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, mae cynnydd wedi'i wneud yn barod yn erbyn Dangosydd Cenedlaethol 23 – gwelir bod y nifer o oedolion 16+ oed a ddywedodd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad 'Rydw i'n teimlo fy mod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn fy ardal leol', wedi cynyddu o 19% yn 2019 i 26% yn 2020 ac i 30% yn 2022. Ymddengys fel pe bai'r pandemig Covid-19 wedi cael effaith gadarnhaol ar y ffigurau hyn, a nodwyd y byddai'n werth mynd ati i asesu effaith cyfnodau etholiadau ar y ffigurau hyn. Mae pwyntiau nodedig eraill sy'n berthnasol i'r prif ffigurau yn cynnwys y ffaith bod pobl 16-24 oed a phobl nad ydynt yn wyn nac yn Brydeinig yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad (rhywbeth yr effeithiwyd arno yn sgil ymestyn yr etholfraint i'r grwpiau hyn ar gyfer etholiadau Senedd 2021, o bosibl), yn ogystal â phobl ag iechyd cyffredinol da a phobl â chymwysterau ar lefel gradd neu uwch.

Er bod y gwelliannau hyn i'w croesawu, mae'n werth nodi bod gwrthdroi'r ffigur mwyaf cadarnhaol yn y fan hon yn dweud wrthym fod 70% o bobl yng Nghymru yn teimlo na allant ddylanwadu ar benderfyniadau'n ymwneud â'u hardal – dyma argyfwng mawr i'n democratiaeth. Hefyd, cafwyd cwestiwn yn ymwneud ag effeithiolrwydd mewnol o gymharu ag effeithiolrwydd allanol – problem gynhenid mewn perthynas â bwlch posibl rhwng sefyllfa lle mae'r unigolyn yn 'teimlo'n wybodus' ynglŷn â sut gall geisio dylanwadu ar benderfyniadau ar y naill law a'r graddau y gall effeithio ar strwythur grym mewn gwirionedd ar y llaw arall.

# Etholiadau a'r cylch etholiadol

Dywedwyd mai pleidleisio oedd 'y ffordd orau o gael dweud eich dweud', ac yn anochel rhoddwyd pwyslais mawr ar ddiwygio etholiadol drwy gydol y trafodaethau ynglŷn ag iechyd cyffredinol democratiaeth. Ond roedd yna deimlad cryf hefyd fod gwleidyddion a'r cyfryngau yn rhoi gormod o bwyslais ar y cylch etholiadol, ac y dylai mentrau ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion ganolbwyntio ar gysyniad ehangach o ddemocratiaeth ac amserlen ehangach o lawer a fyddai'n cwmpasu'r cylch etholiadol yn ei gyfanrwydd. Yn wir, dywedodd rhai o'r cyfranogwyr fod canolbwyntio'n ddi-baid ar etholiadau, mewn gwirionedd, yn ddi-fudd.

Gall cylchoedd etholiadol arwain at anawsterau o ran creu cydberthnasau organig rhwng penderfynwyr a dinasyddion. Dywedwyd bod materion hollbwysig, fel ffocws Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar yr hinsawdd a tharged Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, yn dangos bod gwleidyddion a'r cyhoedd yn gallu meddwl am faterion ymhell y tu hwnt i'r cylchoedd etholiadol pum mlynedd. Soniwyd hefyd am gysylltiad rhwng pobl sy'n pleidleisio/pobl nad ydynt yn pleidleisio a pholisïau sy'n effeithio ar fywydau etholwyr; er enghraifft, effeithiodd y Dreth Ystafell Wely ar bobl mewn dosbarth incwm lle nad yw'r mwyafrif o bobl yn pleidleisio. Mae'n bosibl na fyddai polisïau o'r fath yn cael eu cynnig na'u gweithredu pe bai mwy o bobl sy'n dioddef tlodi yn arfer eu hawl ddemocrataidd.

Er bod yna besimistiaeth eang ynglŷn â 'chyflwr democratiaeth' yng Nghymru, nodwyd mai dim ond ers 2017 y datganolwyd etholiadau, a bod camau mawr wedi'u cymryd eisoes i foderneiddio a diwygio system etholiadol Cymru, gan roi pwyslais ar gynwysoldeb. Gwrthgyferbynnwyd y newidiadau sydd ar ddod i etholiadau Cymru ac i'r Senedd ei hun â dull llywodraeth bresennol y DU; dywedwyd bod rhai o bolisïau llywodraeth y DU, megis mynnu bod pleidleiswyr yn dangos ID, yn gyfystyr ag 'atal pleidleisiau'. Nodwyd na fyddai gan etholaeth fawr ar adain dde gwleidyddiaeth y DU amser ar gyfer y mathau o ddatblygiadau a drafodir yn y papur hwn, nac ychwaith ar gyfer y Papur Gwyn ar Ddiwygio Etholiadol (er enghraifft, digideiddio, defnyddio technoleg i wella hygyrchedd a chofrestru pleidleiswyr yn awtomatig).

Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r syniad y dylid gwneud etholiadau'n fwy hygyrch trwy leoli gorsafoedd pleidleisio 'mewn mannau mae pobl yn mynd iddyn nhw', er enghraifft archfarchnadoedd; trwy ymestyn yr amser y gall pobl fwrw'u pleidlais; a thrwy gyflwyno system bleidleisio ar-lein – dywedwyd bod etholiadau presennol y DU a'r system 'y cyntaf i'r felin' (FPTP) ymhlith y 'systemau etholiadol mwyaf hen ffasiwn drwy'r byd, o bosibl'. Wrth i Gymru symud ymhellach oddi wrth system San Steffan trwy ddiwygio'r Senedd a diwygio'r system etholiadol, y consensws cyffredinol oedd y dylem hefyd ystyried mabwysiadu nodweddion sy'n perthyn i systemau etholiadol yn rhai o 'ddemocratiaethau gorau'r byd', yn arbennig felly y gwledydd Nordig. Ond cafwyd trafodaeth frwd ynglŷn â thargedu a blaenoriaethu grwpiau arbennig o bleidleiswyr, megis pobl sy'n pleidleisio am y tro cyntaf (yn ôl gwaith ymchwil, os byddwch yn pleidleisio y tro cyntaf y byddwch yn gymwys i bleidleisio, fe fyddwch yn fwy tebygol o bleidleisio drwy gydol eich oes) a phobl sy'n pleidleisio mewn etholiadau cyffredinol ond nad ydynt yn pleidleisio yn etholiadau'r Senedd (pobl y gellid eu denu'n hawdd i fwrw'u pleidlais er mwyn cynyddu'r ganran o bobl sy'n pleidleisio yn etholiadau Cymru). Wrth dargedu grwpiau arbennig o ddarpar bleidleiswyr, y teimlad cyffredinol oedd na ddylid gadael grwpiau eraill ar ôl, a hefyd cafwyd rhybudd clir y gallem fynd ati i 'ddefnyddio technoleg newydd i gyflwyno hen system'.

## Y Bwlch Gwybodaeth

Cydnabuwyd yn eang mai'r prif rwystr sy'n atal cyfranogi democrataidd yw'r 'bwlch gwybodaeth'. Er mwyn pleidleisio mewn etholiadau rhaid gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth, ac mae'r holl dystiolaeth yn awgrymu mai bach iawn yw ein gwybodaeth ynglŷn â'n system ddemocrataidd a'r ffordd mae hi'n gweithio. Felly, nid yw nifer o ddinasyddion yn meddu ar yr wybodaeth sy'n angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, ac mae hyn yn eu rhwystro rhag pleidleisio. Fodd bynnag, nodwyd hefyd bod y rhesymau sydd wrth wraidd pam mae pobl yn penderfynu peidio pleidleisio, neu pam na chredant fod modd iddynt ddylanwadu ar benderfynwyr, yn amrywio'n fawr, a bod cymhelliant yr un mor bwysig â gwybodaeth yn hyn o beth.

Yn achos y lleiafrif o ddinasyddion a chanddynt wybodaeth dda am wleidyddiaeth a phrosesau democrataidd, cytunwyd yn eang mai eu cartref teuluol yw eu prif ffynhonnell wybodaeth. Yn ôl gwaith ymchwil, os cewch eich magu ar aelwyd lle na roddir pwys ar bleidleisio, byddwch yn llawer llai tebygol o fynd ati eich hun i bleidleisio. Yn ychwanegol at wybodaeth sylfaenol am systemau democrataidd (gwybodaeth yr ystyrir yn eang ei bod yn 'sych' neu'n 'ddiflas'), cydnabuwyd hefyd bod angen 'ennill calonnau a meddyliau' trwy bwysleisio *pam* mae democratiaeth yn bwysig, yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar *beth* yw democratiaeth.

## Iaith ac ymddiriedaeth

Mae'r rhwystrau yn hyn o beth yn cynnwys jargon, iaith broblemus neu iaith sydd wedi magu ystyr negyddol (fel y gair 'gwleidyddiaeth' ei hun), yn ogystal â'r duedd i gysylltu addysg ddemocrataidd ag etholiadau. Honnwyd bod 'pob unigolyn eisiau deall democratiaeth', ond bod angen newid agweddau, nid ymhlith y cyhoedd ond ymhlith pobl â swyddi pwerus; disgrifiwyd y broblem hon fel 'problem y tŵr ifori': diffyg cyswllt sylfaenol rhwng pobl sy'n perthyn i'r dosbarth gwleidyddol, y cyfryngau a sefydliadau sy'n ymhél â gwleidyddiaeth ar y naill law, a'r cyhoedd ar y llaw arall. Roedd ambell un a gymerodd ran yn y drafodaeth bord gron o'r farn fod llif gwybodaeth aneffeithiol o du sefydliadau democrataidd a'r cyfryngau yn ystod y cyfnodau rhwng etholiadau yn symptom o 'ddemocratiaeth a reolir', lle mae penderfynwyr yn fodlon cynnal y drefn trwy ymgysylltu fawr ddim â'r cyhoedd, gan waethygu'r holl broblemau sylfaenol a ddisgrifir uchod. Fodd bynnag, nododd cyfranogwyr eraill fod sefydliadau democrataidd, y mwyafrif o wleidyddion a'r rhan fwyaf o ymgyrchwyr pleidiau gwleidyddol yn gweithio'n galed iawn i ymgysylltu â'r cyhoedd, ar yr adeg y cynhelir etholiadau a thrwy gydol y flwyddyn.

O ran y broblem ynglŷn ag ymddiried yn y dosbarth gwleidyddol a'r cyfryngau, fe'i priodolwyd i'r arfer o gyflwyno storïau ar ffurf gyfnodol, lle cânt eu cysylltu'n aml â digwyddiadau amlwg fel etholiadau, heb alluogi pobl i gael mynediad at naratifau ehangach a fyddai'n eu helpu i ddeall democratiaeth y DU. Felly, rhaid ymwreiddio'r arfer o ddarparu gwybodaeth oddi mewn i strategaeth ehangach o lawer er mwyn meithrin diwylliant mwy democrataidd drwy gydol y flwyddyn, gan bontio'r bwlch rhwng democratiaeth gyfranogol a chynrychiadol. Mae atebion penodol yn cynnwys addysg ddemocrataidd mewn lleoliadau addysg ffurfiol, dulliau anffurfiol o ddarparu addysg ddemocrataidd, ymgyrchoedd sy'n anelu at roi gwybodaeth i'r cyhoedd, a hybiau 'galw i mewn' democrataidd – mae pob un o'r rhain wedi bod yn destun gwaith prototeipio arloesol yng Nghymru mewn blynyddoedd diweddar.

# Addysg ddemocrataidd

Cytunwyd yn eang bod addysg ddemocrataidd yn ffordd hollbwysig o ymdrin â'r bwlch gwybodaeth – addysg a gyflwynir trwy gyfrwng ysgolion, colegau a dysgu oedolion.

Ar lefel ysgolion, nodwyd bod democratiaeth wedi'i hymwreiddio yn y Cwricwlwm i Gymru, trwy gyfrwng cyfranogi, gweithredu cymdeithasol a dealltwriaeth. Disgrifiwyd y cwricwlwm fel 'cwricwlwm bywyd' ac fe'i canmolwyd am fynnu y dylid cyflwyno addysg ddemocrataidd; ond cytunwyd hefyd na chaiff yr addysg honno ei 'chyflwyno yn y ffordd iawn na chan y bobl iawn' ar hyn o bryd. Mae pobl nad ydynt yn arbenigwyr yn gorfod ysgwyddo'r dasg o gyflwyno addysg ddinesig fel rhyw 'ychwanegiad' at rolau ehangach o lawer. Er enghraifft, yn aml gofynnir i dimau oddi mewn i adrannau awdurdodau lleol prin eu hadnoddau gyflwyno sesiynau'n ymwneud â democratiaeth i amrywiaeth eang o grwpiau. I'r gwrthwyneb, pan ddefnyddir sefydliadau ac 'asiantaethau allanol' ag arbenigedd penodol yn y maes, yn aml nid ydynt yn meddu ar y sgiliau addysgu perthnasol i ddiwallu anghenion y grwpiau targed, yn cynnwys myfyrwyr mewn ysgolion a cholegau. Yn achos nifer o athrawon, nid oes ganddynt hyder yn eu gwybodaeth am ddemocratiaeth, ac nid yw Addysg Gychwynnol i Athrawon yn paratoi athrawon yn ddigonol ar gyfer cyflwyno cynnwys yn y maes hwn. Er bod cymhwyster TGAU Astudiaethau Cymdeithasol newydd yn cael ei ddatblygu yng Nghymru, ar hyn o bryd ni cheir unrhyw lwybr ar gyfer hyfforddi athrawon yn y maes hwnnw, ac felly ni cheir unrhyw lwybr y gall ymarferwyr ei ddilyn er mwyn arbenigo mewn addysg ddemocrataidd. Mewn nifer o ysgolion, gall hyn beri i athrawon ddefnyddio ffilmiau neu daflenni gwaith 'parod' sy'n esbonio democratiaeth mewn ffordd generig. Mae hyn yn arwain at brofiadau gwael i nifer o ddysgwyr – dysgwyr a fydd yn gadael yr ysgol ac yn dal i deimlo'n ansicr neu'n ddryslyd ynglŷn â sawl agwedd ar ddemocratiaeth, hyd yn oed ar ôl iddynt astudio'r pwnc mewn egwyddor. Rhywbeth arall sy'n rhwystro'r arfer o gyflwyno addysg dinasyddiaeth mewn modd effeithiol yw'r angen i fod yn ddiduedd. Unwaith eto, ni chaiff athrawon eu hyfforddi'n ddigonol i ystyried ac ymdrin â'r materion gwirioneddol sy'n gysylltiedig â hyn.

### Addysg trwy gyfranogi

Eisoes, caiff gwaith effeithiol ei wneud ledled Cymru trwy gyfrwng consortia rhanbarthol a sefydliadau fel The Democracy Box (gyda'i fodel Creative Cascade©), y fenter Prosiect Pleidleisio gan Gomisiynydd Plant Cymru (a gynhaliwyd ochr yn ochr ag etholiadau 'ffug' y Senedd yn 2021 ac etholiadau lleol yn 2022) a'r Prosiect Gwleidyddiaeth; ond 'mae yna lawer mwy i'w wneud' er mwyn gallu cydgysylltu'r elfennau hyn a sicrhau adnoddau ar eu cyfer. Gan fod athrawon ac ysgolion yn wynebu cynifer o flaenoriaethau eraill sy'n cystadlu am eu sylw, tasg anodd yn aml yw sicrhau y cyflwynir addysg ddemocrataidd o ansawdd da. Un ffordd allweddol o gyflwyno addysg ddemocrataidd o ansawdd da yw trwy sicrhau bod y dysgwyr yn cael cyfle i gymryd rhan mewn profiadau bywyd go iawn yn ymwneud â democratiaeth. Mae nifer o sefydliadau addysgol yn trefnu etholiadau ar gyfer dewis cyngor yr ysgol neu ethol Prif Fachgen/Prif Ferch. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi gweithio gydag ysgolion yn Sir y Fflint a Chaerdydd i lunio canllawiau ar gyfer

ymarferion democrataidd ehangach, megis refferenda yn ymwneud â pha elusen i'w chefnogi neu i ble y dylid mynd am drip ar ddiwedd y tymor. Nodwyd bod arferion gorau yn hyn o beth yn awgrymu na ddylid galw'r ymarferion hyn yn 'etholiadau ffug' ac y dylid gweld canlyniadau gwirioneddol yn syth, er mwyn i'r cyfranogwyr allu teimlo manteision ac effaith y broses. Hefyd, dylai grwpiau targed ymhél â chynllunio'r broses, a hefyd mae'n bwysig ennyn cefnogaeth holl gymuned yr ysgol, yn cynnwys yr athrawon, fel y gellir ymwreiddio'r syniad 'ein bod yn dysgu am hyn gyda'n gilydd'. Gallai prifysgolion Cymru fod â rôl bwysig yn hyn trwy gynorthwyo ysgolion a cholegau i ddatblygu adnoddau a dulliau cyflwyno priodol ar gyfer addysg ddinesig.

Mae yna gyfleoedd pwysig i adeiladu pontydd gyda theuluoedd trwy gyfrwng eu plant. Aethpwyd i'r afael â gwaith dysgu fel teulu, gan ystyried cwestiynau ynglŷn â sut i gynnwys rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau o'r teulu mewn dinasyddiaeth fwy gweithredol, yn enwedig ar lefel ysgolion cynradd. Nodwyd hefyd bod rhieni, yn The Talking Shop, yn aml yn dilyn patrwm ymgysylltu eu plant. O gofio bod y Gweinidog Addysg wedi mynegi diddordeb yn yr agenda 'myfyrwyr fel dinasyddion, dinasyddion fel myfyrwyr', mae hi'n realistig inni obeithio gweld newid. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod yna rwystrau i'w cael o ran ehangu, cyflwyno ac ariannu prosiectau a roddwyd ar waith yn effeithiol eisoes ar ffurf prosiectau peilot, a dywedwyd na fydd angen dod o hyd i 'arian newydd' o angenrheidrwydd mewn rhai ardaloedd; dylid defnyddio 'arian presennol' mewn ffordd wahanol er mwyn creu effaith well.

# Diwylliant democrataidd

Thema amlwg yn y drafodaeth ynghylch cyflwr presennol democratiaeth oedd y diffyg cysylltiad rhwng materion gwleidyddol mawr sy'n bwysig i bobl a mudiadau sy'n ysbrydoli ymgyrchu fel Mae Bywydau Du o Bwys, Balchder ac Extinction Rebellion ar y naill law, a gwleidyddiaeth bleidiol brif ffrwd ar y llaw arall. Nodwyd bod mudiadau poblogaidd – a ymwreiddir yn aml mewn ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn – wedi llwyddo i ryw raddau i ddisodli mudiadau mwy traddodiadol a arferai gynnig hunaniaeth emosiynol o'r fath, fel undebau llafur, sefydliadau crefyddol a phleidiau gwleidyddol ag aelodaeth dorfol. Gellir cysylltu'r duedd hon â'r ffaith fod grwpiau lleiafrifol yn cael eu hymyleiddio gan systemau etholiadol mwyafrifol. Nodwyd hefyd fod agendâu polisi pleidiau gwleidyddol prif ffrwd y DU wedi cydgyfeirio, ers y 1990au o leiaf, gan greu lle i boblyddiaeth ar y chwith a'r dde – tuedd a chanddi gyd-destun byd-eang a nodweddion cyfatebol mewn democratiaethau rhyddfrydol eraill.

### Ymgyrchu, dylanwad a 'hyrwyddwyr cymunedol'

Oddi mewn i addysg ddemocrataidd a rhaglenni ymgysylltu, mae angen cadarnhau a dathlu'r ffaith bod ymgyrchu yn bodoli ar sawl ffurf ac mewn sawl lle, ac mae angen chwalu stereoteipiau fel yr ystrydeb 'ymgyrchydd-fel-arwr', gan annog plwraliaeth ar ffurf democratiaeth gyfranogol. Stereoteip niweidiol arall yw'r syniad bod pobl ifanc yn dod o dan ddylanwad y cyfryngau cymdeithasol (dylanwad a ystyrir yn ddylanwad negyddol yn aml). Er y cydnabuwyd bod 'dylanwadwyr' ar-lein yn effeithio ar agweddau diwylliannol, cymdeithasol a gwleidyddol, mae dylanwad 'pobl rydych yn eu hadnabod mewn bywyd go iawn' (teulu a chyfeillion yn bennaf) yn dal i fod yn fwy real ac yn fwy parhaol.

Problem fawr yw'r ffaith nad yw ffyrdd organig, 'llawr gwlad' o fynegi diwylliant democrataidd bob amser yn cydweddu â'r strwythurau anhyblyg sy'n perthyn i 'wleidyddiaeth' ffurfiol yn ôl y diffiniad mwyaf cyfyng. O ganlyniad, yn aml rydym yn colli'r egni sy'n perthyn i ymgyrchu, gan orfodi syniadau newydd ar hen systemau, gwthio newyddbethau digidol ar ffyrdd analog o ddeall diwylliant, a gorfodi delfrydiaeth pobl ifanc ar systemau toredig a thrafferthus.

Eisoes, mae grwpiau cymunedol yn datrys nifer o heriau sy'n wynebu unigolion a chymdogaethau ar lawr gwlad. Nodwyd nad gwleidyddion nac enwogion yw'r 'dylanwadwyr' allweddol mewn cymdeithas ond, yn hytrach, mai 'hyrwyddwyr cymunedol' hynod weithgar ydynt sy'n mynd ati i gynnal prosiectau cydweithredol a all esgor ar fanteision cymdeithasol a democrataidd cadarnhaol i bobl a chymunedau ledled Cymru. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys gŵyl gerdd Affricanaidd a gynhaliwyd ym Methesda a rhaglenni allgymorth cymunedol arloesol a gynhaliwyd gan Bafiliwn Grangetown yng Nghaerdydd.

Cytunwyd yn eang ei bod hi'n bwysig iawn elwa i'r eithaf ar ddylanwad cymheiriaid pan ddaw hi'n fater o geisio esgor ar newidiadau sylweddol mewn ymddygiad ac agwedd. Wrth dargedu grwpiau penodol o bobl i'w hannog i ymgysylltu mwy, mae prosiectau democrataidd sydd eisoes ar waith yng Nghymru wedi dangos bod angen cynnwys pobl o'r cymunedau a dargedir yn y dasg o gyd-greu a chyd-gyflawni'r gwaith. Hefyd, roedd pawb yn cytuno y dylai'r hyrwyddwyr democratiaeth hyn o fewn y gymuned gael tâl am y gwaith hollbwysig a wnânt - sef y cyflog byw gwirioneddol fan leiaf.

## Pleidiau gwleidyddol

Er gwaethaf y ffaith fod pleidiau gwleidyddol, i raddau helaeth, wedi colli eu haelodaeth dorfol a'u cysylltiadau â'r mudiadau cymdeithasol ehangach a roddodd fodolaeth iddynt, roedd y cyfranogwyr o'r farn ei bod hi'n bwysig cydnabod nad yw pleidiau gwleidyddol yn elynion i ddemocratiaeth, ac o'r herwydd y dylid cynnal trafodaethau dyfnach ac ehangach gyda nhw ynglŷn â natur doredig democratiaeth. Hefyd, yn achos pobl nad ydynt yn cyd-fynd â'r pleidiau gwleidyddol presennol, mae angen creu cyfleoedd ar eu cyfer a fydd yn eu galluogi i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth, trwy fod yn ymgeiswyr annibynnol, a hefyd mae angen creu cyfleoedd ar gyfer addysg ddemocrataidd a chyfleoedd lle gall pleidiau gwleidyddol eu hunain wneud mwy i dawelu meddyliau'r cyhoedd nad oes yn rhaid i bobl gytuno'n gyfan gwbl â chyfansoddiad neu lwyfan polisi'r blaid.

## Mynd i'r afael â democratiaeth mewn ffordd wahanol

Wrth drafod pa mor bwysig yw annog diwylliant democrataidd dyfnach ac ehangach yn y cyfnodau rhwng etholiadau, canolbwyntiodd y drafodaeth ar bwysigrwydd deialog a thrafodaethau. Erbyn hyn, mae cynulliadau dinasyddion, paneli dinasyddion a rheithgorau dinasyddion yn ymarferion poblogaidd a defnyddiol a gaiff eu hadeiladu ar sail rhyw 'fersiwn fach o'r cyhoedd', ond erys cwestiynau pwysig ynglŷn â'u cost, eu heffaith a'u lefelau cynhwysiant. Nodwyd bod gan Gymru gyfle pwysig i 'fynd i'r afael â democratiaeth mewn ffordd wahanol' trwy elwa ar brofiadau a gafwyd mewn rhannau eraill o'r byd, a thrwy rannu profiadau ac arbenigedd amrywiaeth o sefydliadau i lywio a chynllunio rhaglen ymchwil a datblygu a meithrin capasiti. Cyn cynnal trafodaethau, nodwyd bod yn rhaid cael deialog.

# Y casgliadau a'r camau nesaf

Er mwyn gallu llunio camau nesaf manwl ar gyfer cryfhau democratiaeth Cymru, cytunwyd bod angen i'r sefydliadau partner o amgylch y ford gron ymgysylltu ymhellach gyda'i gilydd a chyda rhanddeiliaid perthnasol eraill fel y gellir sicrhau ffocws strategol ar gyfer y capasiti a'r arbenigedd perthnasol ac osgoi dyblygu gwaith. Dylai sefydliadau barhau i ganolbwyntio ar y materion y mae ganddynt arbenigedd, buddiant ac arbenigedd ynddynt, yn unol â'u cyfrifoldebau statudol a'u hamcanion elusennol ac ati, ond mae hi'n hanfodol inni 'greu cydberthnasau' er mwyn sicrhau bod gwaith strategol ar iechyd democrataidd yn cael ei gydgysylltu a'i fod yn ategu gwaith arall a wneir oddi mewn/rhwng sefydliadau ac unigolion. Trwy weithio gyda'n gilydd ar draws ffiniau sefydliadol, a thrwy sicrhau y caiff cyllid presennol a newydd ei dargedu'n strategol, gallwn gryfhau democratiaeth mewn ffordd gydgysylltiedig, gan wella capasiti a chyrhaeddiad.

## Y camau nesaf

— **Pennu a mapio sefydliadau/rhwydweithiau** a all gynnig (a) pŵer ymgynnull a 'chreu cydberthnasau' rhwng sectorau, (b) arbenigedd sectoraidd penodol a chapasiti cyflawni

— **Dylid cynnal ymarfer mapio** ar draws ffiniau sefydliadol er mwyn dadelfennu gwaith ar (a) etholiadau/pleidleisio, (b) addysg ddemocrataidd, (c) dulliau cyfranogol/ymgynghori rhwng etholiadau, gan rannu'r sylfeini tystiolaeth a'r adnoddau perthnasol sydd ar gael ar hyn o bryd ar draws pob maes er mwyn sicrhau cydlyniant

— **Dwyn ynghyd unigolion a sefydliadau** sy'n gweithio yn y sector democrataidd i archwilio a chyd-lunio rhaglen weithgareddau sy'n canolbwyntio ar 'fynd i'r afael â democratiaeth mewn ffordd wahanol'

— **Dylid cynnal ymarfer cwmpasu** i ddatblygu glasbrint cadarn ar gyfer gwaith ar ddemocratiaeth ymgynghorol, er enghraifft sicrhau lefelau ymgysylltu sylfaenol er mwyn gwneud yn siŵr y bydd prosiectau'n effeithiol

— **Pennu prosiectau effeithiol** a sicrhau cyfleoedd ar gyfer eu hehangu a'u cyflwyno

## Partneriaethau anarferol

Yn ychwanegol at y sefydliadau a gynrychiolir o amgylch y ford gron, mae'n ofynnol i gamau nesaf y gwaith hwn ymgysylltu â'r sectorau a'r cyfranogwyr canlynol, gyda'r nod o drefnu cyfres o 'bartneriaethau anarferol' – er mwyn ysgogi arloesi a chysylltiadau fel y gellir adeiladu diwylliant mwy democrataidd oddi mewn i sefydliadau a chymunedau:

— y cyfryngau

— pleidiau gwleidyddol, awgrymwyd y dylid gwahodd Cadeiryddion pleidiau gwleidyddol a'r staff sy'n gysylltiedig â chynnal ymgyrchoedd etholiadol ac ymgyrchoedd ymgysylltu i fynychu fforwm er mwyn iddynt allu rhannu eu barn

— sefydliadau'r trydydd sector (mae nifer ohonynt eisoes yn gweithio ar ymgysylltu democrataidd)

— hyrwyddwyr cymunedol sy'n gweithio'n unigol ac mewn mudiadau llawr gwlad allweddol ar draws cymunedau amrywiol Cymru

— timau gwasanaethau etholiadol mewn awdurdodau lleol

— cyflogwyr a sefydliadau a chanddynt gynulleidfaoedd gwahanol a mwy (er enghraifft, grwpiau ffydd, sefydliadau chwaraeon a chyrff eraill sydd mewn sefyllfa dda i ymgysylltu â phobl)

— prifysgolion

Dymuna'r Sefydliad Materion Cymreig ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y drafodaeth bord gron a byddem yn croesawu safbwyntiau a thrafodaethau'n ymwneud â'r papur hwn.

ivar MEDIA